Cyflwyno darllenfa er cof am y Parchedig D.T. a Mrs Lena Evans

Ar furiau capel Minny Street, Caerdydd mae cerrig coffa i weinidogion Minny Street. Buont, un ac oll, fel gwres haul y dydd, fel golau'r lleuad trwy'r cymylau i ffyddloniaid Minny Street. Mawr yw ein diolch amdanynt ond, gellid dadlau nad hanes dynion mawr yn unig yw hanes y weinidogaeth ond yn hytrach hanes gwragedd a mamau dygn, ffyddlon a fu'n gefn ac yn gynhaliaeth i'w gwyr yn y weinidogaeth. Wrth ddiolch am ei gyfaill Timotheus, nid oedd amheuaeth gan Paul mai ffrwyth ffyddlondeb ei nain, Lois, a ffydd ei fam, Eunice, oedd Timotheus. Gyda diolch i Siân a Non a'r ddau deulu ynghyd, ar fore'r Sulgwyn, cawsom, at wasanaeth yr Eglwys, ddarllenfa hyfryd er cof am yr annwyl Barchedig D.T. a'r hawddgar Lena Evans, a hynny'n gwbl gywir gan mai amhosibl yw cofio am un heb gofio'r llall; amhosibl yw diolch am y naill heb ddiolch am y llall. Gwnaeth y ddau waith gras yn ein plith.

Pa well eiriau i'w cyflwyno fel y geiriau cyntaf i'w darllen o'r ddarllenfa ar fore'r Sulgwyn, 2010 na geiriau D.T. ei hun, geiriau olaf "Llwybr yr Adfywiad" - ei anerchiad fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr yn 1983:

" Ond yw'n bryd i ni ddod allan o'n hunan-drueni sy'n peri i ni edrych yn ôl fel pe bai Canaan eisoes wedi mynd heibio yn hanes yr Eglwys, a mentro dathlu yn llawen ac yn hyderus fod holl adnoddau Duw o'n plaid ni heddiw?
Emynau 'heddiw', emynau 'nawr', emynau ... yn yr amser presennol yw llawer o emynau'r Atgyfodiad... *<u>Heddiw</u> cododd Crist o'i fedd, Haleliwia* - ac y mae hyn i gyd oherwydd bod yr Atgyfodiad, nid yn unig yn ffaith unwaith mewn hanes, ond hefyd yn rym cyfoes i'n nerthu a'n hadnewyddu yma ac yn awr. Am hynny llawenhawn, dathlwn a gorfoleddwn..."

Diolchwn fel Eglwys am y Parchedig D.T. Evans; diolchwn hefyd am Mrs Lena Evans, a fu'n donic cyson i'r Eglwys hon - gwraig lawen, garedig, ddiwyd, dygn: ffefryn pawb.